**CABINET**
**14 MEHEFIN 2022**

Cofnodion cyfarfod Cabinet Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn rhithiol dros Zoom ddydd Mawrth 14 Mehefin 2022.

**<u>YN BRESENNOL</u>:** Y Cynghorydd Ian Roberts (Cadeirydd)
Cynghorwyr: Sean Bibby, Chris Bithell, Dave Hughes, Paul Johnson, Christine Jones a Billy Mullin.

**<u>HEFYD YN BRESENNOL</u>**:
Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid), Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Rheolwr Cyllid Strategol, Rheolwr Corfforaethol, Pobl a Datblygu Sefydliadol, Swyddog Datblygu Polisi ac Arweinydd Tîm - Gwasanaethau Democrataidd.

**YMDDIHEURIADAU:**
Y Cynghorydd Dave Healey

**3. DATGAN CYSYLLTIAD**

Dim.

**4. <u>COFNODION</u>**

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2022 eu cyflwyno a'u cadarnhau'n gofnodion cywir.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod fel cofnod cywir.

**5. ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL Y GYMRAEG 2021/22**

Cyflwynodd y Cynghorydd Mullin yr adroddiad ac eglurodd fod angen i Gyngor Sir y Fflint lynu at Safonau'r Gymraeg, fel y nodir yn yr Hysbysiad Cydymffurfio a gyflwynwyd i'r Cyngor yn 2015.

Eglurodd y Prif Weithredwr fod Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn galluogi Gweinidogion Cymru i benodi safonau ar gyfer y Gymraeg. Nod y Safonau yw:

- Gwella'r gwasanaethau y gall siaradwyr Cymraeg ddisgwyl eu derbyn gan sefydliadau yn y Gymraeg;
- Cynyddu'r defnydd y mae pobl yn ei wneud o wasanaethau Cymraeg;
- Ei gwneud yn glir i sefydliadau beth sydd angen iddynt ei wneud o ran yr iaith Gymraeg; a
- Sicrhau bod lefel priodol o gysondeb o ran y dyletswyddau a osodir ar gyrff yn yr un sectorau.

Crybwyllodd y buddsoddiad o dros £1miliwn i Ysgol Croes Atti yng Nglannau Dyfrdwy, i wella'r ddarpariaeth o addysg Cymraeg yn ardal Shotton a'r ysgol cyfrwng Cymraeg arfaethedig newydd a fyddai'n disodli Ysgol Croes Atti presennol yn y Fflint. Hon fydd yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd gyntaf i gael ei hadeiladu gan y Cyngor, ers iddo gael ei sefydlu ym 1996. Roedd Llywodraeth Cymru (LlC) yn gwneud cyllid ar gael i hwyluso twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg a defnydd o'r Gymraeg ac roedd y Cyngor wedi mynegi diddordeb mewn ymgeisio am gyllid ar gyfer ardal Bwcle/Mynydd Isa.

Gwnaeth y Swyddog Datblygu Polisi sylwadau ar lwyddiant y fenter Cymraeg Bob Cynllun a Dydd Mercher Cymraeg. Eglurodd fod gweithwyr yn cael eu hannog i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg drwy hyfforddiant a ddarperir gan y coleg lleol. Roedd adnoddau i gefnogi dysgwyr Cymraeg a siaradwyr Cymraeg ar gael ar y fewnrwyd ar dudalen ddynodedig ar gyfer dysgwyr Cymraeg.

Yn 2021/22 derbyniwyd un gwyn yn uniongyrchol i Gomisiynydd y Gymraeg, o'i gymharu â thair cwyn yn y blynyddoedd blaenorol. Roedd manylion y gŵyn wedi'i amlinellu yn yr adroddiad.

Eglurodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) bwysigrwydd y gwaith a gyflawnwyd gan y Gwasanaeth Ieuenctid ar y wybodaeth yr oeddent yn ei ddarparu ar y cyfleoedd ar gael i bobl ifanc os oeddent yn ddwyieithog.

Diolchodd y Cynghorydd Roberts i'r Swyddog Datblygu Polisi a'i thîm am eu gwaith i hyrwyddo'r Gymraeg a'u gwaith ar yr adroddiad blynyddol. Anogodd yr aelodau a swyddogion i ddefnyddio'r Gymraeg lle bynnag bosibl.

Gwnaeth y Cynghorydd Bithell sylwadau ar weithrediad Ysgol Glanrafon yn yr Wyddgrug o ran gwaith ailfodelu ac estyniad, a fyddai'n cynnwys datblygu darpariaeth cyn ysgol pwrpasol ar y safle. Bydd estyniad ar y safle yn galluogi i gapasiti'r ysgol gynyddu.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Johnson, dywedodd y Swyddog Datblygu Polisi y byddai rhestr o frawddegau a ddefnyddir yn aml mewn cyfarfodydd yn gallu cael ei llunio a'i anfon i Aelodau.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg 2021/22, gan nodi meysydd ar gyfer cynnydd a gwelliant; a

(b) Bod adroddiad arall yn cael ei dderbyn ym Medi 2022 yn amlinellu'r cynnydd a wneir.

## 6. YMARFER PWERAU DIRPRWYEDIG

Cyflwynwyd eitem er gwybodaeth am y camau gweithredu a gymerwyd o dan bwerau dirprwyedig. Y rhain oedd y camau gweithredu dan sylw:

**Addysg ac Ieuenctid**

- **Llywodraethwyr Ysgol a Benodir gan Awdurdodau Lleol**
  Penodi cynrychiolwyr Llywodraethwyr Awdurdod Lleol ar gyrff llywodraethu ysgolion yn unol â Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005.

**Refeniw**

- **Rhent y Cyngor - Diddymu ôl-ddyledion Rhent Tai**
  Mae Rheolau'r Weithdrefn Ariannol (adran 5.2) yn nodi bod dyledion drwg a rhai na ellir eu hadennill sydd werth dros £5,000 yn cael eu dileu ar y cyd â'r Aelod Cabinet perthnasol. Gwnaed penderfyniad i ddileu dyled Rhent Tai ar gyfer un tenant oedd yn destun Gorchymyn Rhyddhau o Ddyled (DRO). Mae ôl-ddyledion rhent o £9,267.30 wedi'u cynnwys yn y DRO.

- **Diddymu Dyledion Corfforaethol**
  Mae'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'r Aelod Cabinet Rheolaeth Gorfforaethol ac Asedau wedi eu hawdurdodi i ddiddymu dyledion rhwng £5,000 a £25,000. Credir na ellir adfer dyledion Trethi Corfforaethol gwerth £24,357.25 ac y byddan nhw'n cael eu diddymu:
    - Mae gan Achos 1 balans sy'n ddyledus o £19,093.62, mae'r dyledwr wedi marw ac nid oes aran yn yr ystâd i dalu'r dyledion hyn.
    - Mae gan Achos 2 falans o £5,263.63 yn ddyledus ac mae'r dyledwr wedi ffoi ac ni allwn ddod o hyd iddynt.

**Arlwyo a Glanhau NEWydd**

- **Cynyddu Pris Prydau Ysgol**
  Cynyddu prisiau ysgol er mwyn parhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd yn unol â chostau cynyddol, wrth geisio dod â nhw yn unol â darparwyr prydau ysgol eraill ar draws Cymru.

**Tai ac Asedau**

- **Trosglwyddo Asedau Cymunedol**
  Mae'r adroddiad yn ymwneud â Throsglwyddo Ased Cymunedol Pafiliwn Treffynnon, Fron Park Road, Treffynnon.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig o dan baragraff(au) 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**7. YMESTYN CONTRACT ASIANTAETH A REOLIR**

Cyflwynodd y Cynghorydd Mullin yr adroddiad ac eglurodd bod y Cyngor wedi defnyddio contract fframwaith, wedi'i gaffael ar y cyd â Chyngor Sir Ddinbych, i ddarparu staff asiantaeth.

Ychwanegodd y Rheolwr Corfforaethol, Pobl a Datblygu Sefydliadol fod y contract presennol yn dod i ben ym mis Awst 2022 ac roedd y cytundeb presennol yn cynnwys dewis i ymestyn y contract am flwyddyn arall.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cytuno ar estyniad o'r contract asiantaeth a reolir o 12 mis o 28/08/22 i 31/08/23; a

(b) Ail-dendro'r gwasanaeth yn 2023 i ganiatáu digon o amser i Gyngor Sir y Fflint, mewn cydweithrediad â Chyngor Sir Ddinbych, gaffael contract newydd.

## 8. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a.m. a daeth i ben am 10.35 a.m.)

…………………………
**Cadeirydd**